
# Cwmni


Rhifyn 170 | Pris 80c | Mawrth 2015


# Mae hi ar ei ffordd!!!!



Llancaiach Fawr. Allwch chi ddychymygu sut y bydd y llecyn tawel hwn yn edrych pan ddaw bwrlwm yr eisteddfod...........

# Ysgol y Castell




*Beirniadu Posteri*

Diwrnod i'r brenin er bod y dŵr yn oer! Llongyfarchiadau mawr i'r plant a fu'n cystadlu yng **Ngala Nofio Genedlaethol yr Urdd**. Fe ddaeth Hannah N Bl6 yn 7fed yng Nghymru a Lauren P Bl4 yn 8fed yng Nghymru, y ddwy yn y dull rhydd. Cyrhaeddodd y timoedd 3ydd a 4ydd y rowndiau cyn- derfynol. Diolch i'r holl rieni a'r athrawon am eu cefnogaeth.

Ar gychwyn mis Chwefror ysbrydolwyd plant bach Y Derbyn a Phlant Blwyddyn Un am fywyd y gorffennol gan farchog Castell Caerffili. Roedd y plant yn wên o glust i glust wrth ddysgu am fywyd mewn castell 'slawer dydd.

Er mwyn hyrwyddo diwrnod E-ddiogelwch Cenedlaethol cydweithiodd rhieni, plant ac athrawon er mwyn datblygu ein dealltwriaeth am ddiogelwch ein plant ar lein. Un o'r gweithgareddau oedd dylunio poster E-ddiogelwch. Profodd beirniadu'r gystadleuaeth yn un anodd ar gyfer ein harweinwyr digidol. Y buddugwyr yn y Cyfnod Sylfaen oedd 1af Summer W, 2ail Nia Th, ac yn 3ydd Kit C. Ym mlwyddyn 3 a 4 1af Ieuan P, 2ail Harriet W-N, ac yn 3ydd Megan M. Ym mlwyddyn 5 a 6 1af Ruby G, 2ail Megan W, ac yn 3ydd Ella Ph.

Llangrannog, Llangrannog i mi… Wythnos brysur a hwylus a gafodd plant Blwyddyn 5 ar yr wythnos yn cychwyn y 9fed o Chwefror. Nofio, sgïo, beiciau modur, rhaffau uchel, tostio marshmallows, gwyllt grefft, marchogaeth, ceirt, cyfeiriannu, rhaffau isel, a gwibgart ond i enwi rhai o weithgareddau'r wythnos. Wythnos benigamp diolch i blant Blwyddyn 5, Mrs Helen Nuttall, Mr Aled Hill, Mrs Lowri Griffiths ac i Mrs Cath Evans-Lugg.



*Yng Nghysgod Carreg Bica*



*Y Rhaffau Isel*

# Taith America 2014
gan Emma B. Safle'r Gwyndy



## Efrog Newydd

Ar ôl diwrnod o deithio, cyrhaeddom ni'r gwesty Skiline yn Efrog Newydd. Ein stop nesaf oedd bwyty 'Bubba Gump', yn seiliedig ar y ffilm 'Forrest Gump'. Y diwrnod wedyn oedd ein diwrnod cyntaf llawn yn Efrog Newydd. Dechreuodd y diwrnod yn gynnar, gyda brecwast yn y deli, a ddaeth yn arfer dyddiol! Gwnaethom gwrdd â'n 'canllaw taith', a oedd yn gwybod llawer am hanes Efrog Newydd! Cerddom ni tuag at 'Central Park'. Roedd hwn yn teimlo fel petai'n 23 milltir i ffwrdd! Lwcus bod gennym esgidiau synhwyrol! Ar y ffordd i'r parc, cawsom y cyfle i weld safleoedd enwog Efrog Newydd, gan gynnwys '5th Avenue', 'Broadway' a Chanolfan 'Rockerfeller'.

Taith cwch oedd nesaf! I lawr afon Hudson, yn dal i allu gweld Ynys Ellis, y Cerflun Rhyddid (Statue of Liberty) a Phont Brooklyn! Gwelsom Nenlinell (skyline) Manhattan ac adeilad yr 'Empire State'. Y noson honno, cawsom y profiad gwych o deithio 86 llawr i weld Dinas Efrog Newydd gyda'r nos, hyd yn oed os oedd rhaid aros 2 awr! Roedd yr holl aros bendant yn werth chweil!

Roedd cwsg yn hawdd ar ôl yr holl gerdded, a deffrom i ddiwrnod cyffrous arall. Gweithgaredd heddiw oedd ymweld â gêm bêl-droed - American Style! Cefnogom ni'r 'New York Jets', ynghyd â hetiau, bysedd sbwng ac awyrgylch ryfeddol.
I orffen 4 diwrnod arbennig yn Efrog Newydd, cawsom ymweliad â un o sioeau mwyaf enwog Broadway- 'Phantom of the Opera'! Profiad anhygoel!

## Philadelphia

Philadelphia oedd nesaf, gyda chanu'r holl ffordd i 'Grisiau Rocky'. Swynol iawn! I'r rhai ohonoch sy'n rhy ifanc i gofio hyn, dyma lle gwnaeth Rocky, sef bocsiwr, redeg i fyny'r grisiau yma, fel rhan o'i hyfforddi. Ers hynny, mae wedi dod yn gystadleuaeth flynyddol rhwng yr athrawon! Cystadleuol iawn! Ar ôl cael y cyfle i redeg i fyny'r grisiau yma, roedd hi nôl ar y bws i'r ganolfan siopa! Canolfan llawn siopau dylunydd pris isel, oes rhaid i mi ddweud rhagor?

Ar y pumed diwrnod o'n taith, dysgom am hanes Philadelphia. Cawsom ymweliad â'r 'Liberty Bell', yn agos i le gafodd Datganiad Annibyniaeth America ei arwyddo. Cawsom daith o amgylch Philadelphia i weld tirnodau enwog fel hyn.

## Washington DC

Yn Washington, roedd gennym y cyfle i ymweld â gêm hoci iâ! Eto, roedd yr awyrgylch yn wych ac fe fwynheuodd pawb, yn enwedig yr athrawon! Cawsom hefyd y cyfle i ymweld â nifer o amgueddfeydd, gan gynnwys yr amgueddfa hanes natur, a'r amgueddfa Holocaust. Ar ôl hyn, eto, roedd mwy o siopa! Uchafbwynt yr holl daith i fi oedd ymweld â'r holl gofebion. Cawsom ymweliad â Mynwent Arlington, lle gafodd milwyr eu claddu o'r Rhyfel Byd Cyntaf hyd at y Rhyfeloedd mwyaf diweddar. Dyma lle hefyd mae JFK ac aelodau o'i deulu wedi'u claddu. Roedd y lle yn heddychlon iawn.

Cawsom hefyd y cyfle i ymweld â nifer o gofebion Washington. Roedd y rhain yn cynnwys cofeb Abraham Lincoln, Yr Ail Ryfel Byd a chofeb Martin Luther King. Mae'r gofeb hon yn cyfleu tair thema a oedd yn ganolog drwy gydol bywyd Martin Luther King - democratiaeth, cyfiawnder, a gobaith. Mae'r gofeb yn 30 troedfedd o uchder. Roedd hwn yn brofiad gwych, gyda'r cofebion yma wedi'u goleuo yn erbyn yr awyr dywyll. Roedd y profiad yma yn syfrdanol.

**Roedd y trip yma i America yn fythgofiadwy, ac ar ran pawb ar y daith, hoffwn ddiolch i Miss Davies a'r athrawon eraill am brofiad gwirioneddol**



## Dathlu Dengmlwyddiant Siloh, Ystrad Mynach

Ddiwedd Ionawr, daeth nifer o bobl ynghyd o bob rhan o Gymru i ddathlu dengmlwyddiant Siloh yn Ganolfan Gymunedol Gristnogol gydag Oedfa o Ddiolchgarwch. Roedd hi'n braf croesawi cyn-weithwyr, cyfeillion, cefnogwyr o'r Henaduriaeth iaith Saesneg, a band i arwain yr addoliad o Eglwys Ebeneser, Caerdydd. Yn y gweddïau, enwyd pob un o'r 21 mudiad sy'n defnyddio'r Ganolfan yn rheolaidd, a gofynnwyd bendith arnynt, ac ar y gymuned leol.

Yn ystod y gwasanaeth, comisiynwyd Sarah Johnson a Tamsin Graves yn weithwyr cymunedol, a heriwyd pawb oedd yn bresennol i adeiladu i'r dyfodol ar seiliau Ffydd, Addoliad, Tystiolaethu a Gwasanaethu - y cwbl trwy'r sail fwyaf cadarn, sef Cariad.

Dyma bennill acrostig yn disgrifio Siloh yn 2015 -

Safle hygyrch i'r pentre'
I gynnig croeso, fe wasanaetha
Laweroedd â chyngerdd a chymdeithas a gweddi,
O un genhedlaeth i'r nesa' -
Hafan a Hendre yn enw'r Arglwydd.

Mae'r gyfres nesa' o Astudiaethau Beibl dwyieithog yn dechrau yn Siloh nos Fawrth Ebrill 14eg, 7.30 i 8.30 yr hwyr - croeso i bawb.
Mwy o fanylion ar ein gwefan :

www.siloh.co.uk <http://www.siloh.co.uk



*Tamed blasus yng Ngwasanaeth y Dathlu*



*Nan Powell Davies yn comisiynu Tamsin a Sarah yn Siloh*



Daeth y llysgenhadon at ei gilydd yn Ysgol Plasyfelin ar Ionawr 29 ac fel arfer roedd yn bleser mawr bod yn eu cwmni a rhannu eu brwdfrydedd. Erbyn hyn mae hysbysfwrdd gan bob ysgol dan ofal y llysgenhadon yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiad Canolfan Gymunedol y Glowyr a chawsom adroddiad byr o'u cynnwys. Buom yn trafod tasg nesaf y llysgenhadon, sef perswadio'u hysgolion i brynu bricsen a fydd yn codi arian at adfer hen adeilad yr ysbyty.
Cafwyd trafodaeth hefyd am enw swyddogol y ganolfan : roedd y llysgenhadon yn awyddus i gael enw newydd ac fe bleidleisiwyd dros yr enw " Calon y Glowyr", awgrym gan ferched Safle'r Gwyndy. Yn anffodus, dewis y mwyafrif yr oedolion sy'n gysylltiedig â'r prosiect oedd glynu at yr enw gwreiddiol " Y Glowyr / The Miners". Fodd bynnag fe gedwir yr enw " Calon y Glowyr" ar gyfer ystafell yn y ganolfan newydd lle bydd ieuenctid yn cwrdd.
Mae llawer o'n llysgenhadon ym mlwyddyn 6 erbyn hyn a daw eraill i gymryd eu lle fel cynrhychiolwyr cynradd ym mis Medi. Gan fod ganddynt gymaint i'w gyfrannu eto i'r prosiect, fe benderfynwyd ffurfio Fforwm Ieuenctid ar gyfer cyn-lysgenhadon a derbyniwyd yr awgrym yn frwdfrydig.
Braf oedd clywed y llysgenhadon, wrth edrych yn ôl ar y misoedd diwethaf, yn dweud mai'r peth pwysicaf iddynt oedd cael bod yn rhan o ddatblygu sefydliad a fydd yn rhan allweddol o'u cymuned.

## Menter Iaith

Hoffem fel staff ddiolch i Ffion Rees am ei gwaith caled fel Swyddog Datblygu Cymunedol i'r Fenter am bron i dair blynedd. Mae hi'n ein gadael i fynd i weithio gyda S4C. Pob lwc Ffion.

**Oedolion**

Sesiynau coginio - Mae nifer o sesiynau wedi'u cynnal gan Eluned Davies-Scott erbyn hyn, cyfle i greu pot siocled, byrgers twrci, nwdls, crymbl a mwy! Mae'r sesiynau yn boblogaidd iawn ac yn hwyl. Cysylltwch â ni os hoffech fynychu rhywbeth tebyg eto!

**Sadyrnau siarad a boreau coffi**

Cyfle i ddysgwyr a siaradwyr rhugl i gwrdd am baned a sgwrs. Cysylltwch â ni am ragor o wybodaeth am sesiynau wythnosol yn agos atoch chi. Dewch i Sadwrn siarad mis Mawrth yng Nghaerffili, dydd Sadwrn, Mawrth 28, 10.00 – 12.00.
Fe fydd sesiynau trefnu blodau yn cychwyn cyn y Pasg hefo Ann Mears.

**Urdd Gobaith Cymru**

Aelwyd Cwmffili - Sioe Shrek - gan griw PCAI Cwm Rhymni

Llongyfarchiadau mawr i griw PCAI disgyblion chweched Cwm Rhymni a mynychwyr Aelwyd Cwmffili am eu gwaith caled yn paratoi Shrek. Roedd yn noson wych. Cymeriadu arbennig gan yr actorion, gwaith caled gan y criw cefn llwyfan a dwy dalentog iawn yn cyfeilio ar y piano. Roedd yn noson gymdeithasol lwyddiannus hefo adborth cadarnhaol iawn gan y gynulleidfa.

**Pobl ifanc (Prosiect MentUrdd Caerffili)**

Dyma rai o'r gweithgareddau mae Urdd Rhanbarth Gwent a Menter Caerffili wedi bod yn cydweithio



*Paratoadau ar gyfer Sioe Shrek - gan griw PCAI Cwm Rhymni*

arnynt yn ddiweddar hefo pobl ifanc y sir:

**Taith Syrffio a rhaffau uchel** - Mynychodd wyth ein taith syrffio a chwrs rhaffau uchel, a bu gwên ar wyneb pob un am y diwrnod cyfan! Roedd yn bleser mynd â chriw mor gyfeillgar a chwrtais.

**Plant**

Clybiau gofal - Buodd 3 Chlwb Gwyliau'r Fenter yn rhedeg dros hanner tymor yn ysgolion y Castell, Bro Allta a Chaerffili. Llawer o hwyl a phawb yn gwneud crempogau ar Ddiwrnod Crempog. Cafodd y plant gyfle i chwarae gemau, creu pethau hyfryd trwy weithgareddau celf a chrefft a bwydo'r hwyaid.
Sesiwn Goginio - Fe wnaethon ni gynnal dwy sesiwn grempog lawn, dydd Mawrth Crempog yn safle Gelli Haf a'r dydd Mercher canlynol yn safle Y Gwyndy. Diolch i'r ysgolion am hybu'r weithgaredd, bu'n llwyddiannus iawn.


**Fforwm Iau** - Rydym yn helpu i staffio Fforwm Iau'r Cyngor Sir drwy arwain y sesiynau hefo cynrychiolwyr yr Ysgolion Cymraeg. Roedd criw brwd a gweithgar iawn wedi rhannu eu syniadau a'u barn. Edrychwn ymlaen at eu gweld eto yn y dyfodol.

**Teithiau i ddod…**

Mawrth: Dydd Iau Mawrth 12: Taith Gwibgartio £35
Manylion cysylltu: 01443 820913
bethanjones@mentercaerffili.org
morgan@urdd.org

## Colofn Dafydd Islwyn






Silff lyfrau o daith ydy'r daith mewn bws Richards, Aberteifi o Bont Carreg i Gei Newydd bob Dydd Mercher. Yng ngheg Cwm Rhibyn y daliwn y bws, ac yn y rhan hwn o'r fro y bu Cranogwen (Sarah Jane Reed, 1839 - 1916) yn byw am ddeugain mlynedd olaf ei hoes. Cyhoeddodd Gwasg Gomer yn 1980, 'Cranogwen, Portread Newydd' gan y Parchedig Gerallt Jones, Caerwedros. Ganwyd ef yn Rhymni yn 1907.

I lawr i Bontcarreg a sylwi ar yr arwydd 'Ar Werth' ar yr ysgol leol, fel ar Ysgol Rhydlewis, Cross Inn, Glynarthen, Caerwedros ac eraill. Caewyd pennod Hen Ysgolion Bach y Wlad. Bron a ddywedwn mai llyfrgell o bentref ydy Pont Carreg! Cael cip o'r bws ar Pentalar, Alun Cilie; Dolnant, T.Llew Jones a heibio i Derwydd, lle bu Isfoel yn byw. Ymddeolodd ef yno o Cil y Gorwel, ar gyrrion y pentre i gyfeiriad Capel y Wig. Dolur i'r llygaid ydy Cil y Gorwel bellach. Gadawodd y perchennog o ardal Preston, yn Lloegr, y lle heb ei atgyweirio ar ôl y tân fu yno. Llanast lle bu llyfrau. Mae pentref Llangrannog yn dynfa i arlunwyr lleol, tirlun o Garreg Beca yn amlach nag englyn yn y Pentre Arms bellach. Haf eleni cyhoeddwyd y gyfrol 'Llangrannog: Land and Sea' gan Sue Passmore. Cyfrol sy'n olrhain hanes cartrefi yr ardal hyd 1911. Yn ôl o'r pentre glan y môr draw am Gapel y Wig â'i flodeugerdd o fynwent a heibio i ben y lôn fain sy'n arwain at Maes y Cegin, lle bu yr Athro Melville Richards, Bangor yn byw. Ef, yr arbenigwr ar enwau lleoedd yng Nghymru a daniodd y diddordeb mawr yn y maes.

Rydw i'n dueddol o anghofio bod llenorion ac ysgolheigion wedi byw yn yr ardal yn ogystal â beirdd. Magwyd Athro Coleg Diwynyddol ym Mlaencelyn. Ganwyd y Parchedig Athro John Evans, Coleg Coffa Aberhonddu yn Erwau-fach yn 1858. Yn 1926 cyhoeddodd esboniad ar Epistol Cyntaf Paul at y Corinthiaid. O Flaencelyn am y paragraff o bentre, Penybontrhydyfothau, a sylwi bod englynion y fro mor gyffredin â'r mwyarn duon ar gloddiau'r fro. Taro Llwyndafydd a chofio am gyfrol Fred Williams, un o linach y Cilie, 'Codi Wal' a olygwyd gan ei frawd y Capten D. J. Williams, Glyn Marles, Pontcarreg. Yn ystod un o'i fordeithiau daeth ef wyneb yn wyneb ag Almaenwr a oedd yn gwybod yn iawn am Gwm Tydu. Yn ystod y Rhyfel Mawr bu i long danfor Almaenig yr oedd ef ar ei bwrdd, daro i mewn i Gwm Tydu er mwyn nôl dŵr ffres.

Ger y Crown yn Llwyndafydd, troi am Gaerwedros. I'r pentre hwn yr ymddeolodd y Parchedig Gerallt Jones. Bu farw yn 1984. Ef enillodd ar yr englyn, 'Yr Argae' yn y Genedlaethol, Rhydaman yn 1970. Y pedwerydd o Deulu'r Cilie i ennill mewn un mlynedd ar hugain. Dilynodd ei ewythr, Alun Cilie, ei gefnder Jac Alun a'i gefnder yng nghyfraith T. Llew Jones. Ers yr eisteddfod honno does ond dau weinidog yr efengyl llawn amser wedi ennill cystadleuaeth yr englyn yn y Genedlaethol. Yn ystod y ddegawd flaenorol enillodd pedwar gweinidog. Arwydd o'n cyfnod ni.

Gan fy mod yn gebyst am ymweld â mynwentydd, bydd yn rhaid ryw ddydd a ddaw daro i mewn i fynwentydd Llwyndafydd, capel caeëdig Neuadd ac un Nanternis. Archifdai swyddogol ein plwyfi yw mynwentydd. Mae mynwent Cei Newydd hefyd ar yr agenda.

Mae teithio yn y bws o Gaerwedros i Nanternis, trwy ran o Faenygroes ac i lawr i'r Cei, fel troi tudalennau blodeugerdd o gerddi'r fro. 'Y Gorwel' gan Dewi Emrys a'r 'Bae' gan

Alun Cilie. Heibio i arwydd Cei Newydd a'r dychymyg yn galw cofrestr: Watcyn Wyn, Dewi Emrys, Moelona, Jac Davies, Augustus John a Dylan Thomas. Yma y cyfansoddodd Watcyn Wyn ei emyn "Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod". Yma, yn Majorca House yn 1881 y ganwyd Dewi Emrys. Yn Hedd y Môr, Lewis Street, y bu Moelona, awdures 'Teulu Bach Nantoer' yn byw ar ddiwedd ei hoes. Cyhoeddodd Jac Davies, gyda'i frawd D. Jacob Davies, Allt y Blaca, gyfrol 'Cerddi'r Ddau Frawd'. Bu'r arlunydd Augustus John yma yn cymdeithasu yn egnïol. Ymwelodd Dylan Thomas â'i fodryb yn Werndawel, Tywyn Road i swnian am arian. Flynyddoedd yn ddiweddarach bu'n byw yn yr ardal. Cei Newydd ydy Llareggub 'Under Milk Wood'. Dyma englyn 'Sosban Fawr' i'r lle,



Nid yw'n fan, mae'n wahanol i rywle
Fel Rhyl neu Ffostrasol,
Anffawd mewn gwin Dylanffol
Yw enw od rheg am nôl.

# Y Gog ar Fynydd Bach y Rhydri

Bu Moyra a Gwilym Davies yn ffermio Cefn Llwyd, uwchben Abertridwr, am flynyddoedd. Wedi ymddeol i'w byngalo 'Cilmeri', daliai Gwilym grwydro draw i Fynydd Bach y Rhydri bob gwanwyn i glywed cân y gwcw. Wedi'r ymweliad byddai Gwilym yn cyhoeddi y byddai'n fyw am flwyddyn arall, am iddo glywed cân yr aderyn hwnnw. Yn 1997 ni chlywodd y gwcw ac yn hwyrach y flwyddyn honno bu farw Gwilym. Mae'r gog, hyd y gwyddys, yn dal i fod yn fud ar Fynydd Bach y Rhydri. Ond ers hynny mae Nia, merch Gwilym a Moyra, a'i gŵr Richard yn parhau â'r traddodiad teuluol drwy ymweld â Pharc Cwm Darran bob blwyddyn lle mae seiniau'r gwcw i'w clywed o hyd. A dyma un arall o'r cerddi a gafwyd yng nghasgliad Mrs Davies,



**Gwerin y Drws Agored**
**Cwm Rhymni 1990**

*Oes rhywun yn cofio pryd berfformiwyd y gân hon ??*

Dilyn yr afon Rhymni o'r Bannau i lawr i'r byd,
Mae olion ein diwylliant yn y dyffryn ar ei hyd;
Neuaddau a chapeli llwyd, plasdai a chastell hardd,
Mangre i seiniau'r delyn a chyffroadau'r bardd.

Daeth yr estron i Gwm Rhymni, daeth dynion o bedwar ban,
I osod eu gwreiddiau'n gadarn ar diroedd noeth dwy lan
Rhwng Mynwy a Morgannwg, o gyfoeth cudd y fro,
Fe gododd hil yr haearn, ac arwyr cwm y glo.

Fe losgodd tân eu crefydd, a llên diwylliant hardd,
Blodeuodd eu cerddorion, a chyffro geiriau'r bardd;
Fe dyfodd y gwleidyddwyr o'r llais dros hawliau dyn
A seiniodd côr a thelyn gyda moliant ar eu min.

O Dwyn Carno i Gaerffili, o'r Bargod i Gelli Gaer,
Mae ysbryd yr adfywiad trwy'r Cwm yn galw'n daer;
Cofiwn ein harloeswyr, dynion yr harn a'r graig
A gododd eu cymdeithas trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cytgan;
Gwerin y drws agored, gwerin y caib a'r rhaw,
Gweithwyr y cenedlaethau, a'u llafur ar bob llaw;
Mae ysbryd yn dal i redeg, a gafwyd dan y graith
Ym mêr eu hetifeddiaeth ac ym mrwydr fawr eu hiaith.

*Y geiriau gan Emyr Edwards a'r gerddoriaeth gan Ann Hopcyn*

# Cyhoeddiadau



**Genedigaeth.**
Llongyfarchiadau i Tony a Catrin Gregory, Heol Tyddyn, Castle View, Caerffili ar enedigaeth Ana Ffion, chwaer i Sara Elen. Mae Catrin yn enedigol o Sir Benfro ac yn athrawes yn Nhre-lyn, tra bod Tony yn dysgu Cymraeg ac yn dod o Swydd Caint. Pob dymuniad da.

**Apêl am Stiwardiaid**



Gydag wythnosau bellach i fynd nes i Brifwyl Ieuenctid Cymru gyrraedd ein Sir, mae Mr Urdd yn paratoi ei hunan i ymgartrefu yn Llancaiach Fawr yn ystod hanner tymor Mai. Mae'r croeso cynnes a'r cyffro fydd yn aros amdano, a'r miloedd o Gymru gyfan a fydd yn dod i'n plith, wedi bod yn amlwg ers i'r paratoadau ddechrau dros ddwy flynedd yn ôl.

A mawr yw'r diolch i'r cannoedd trwy'r sir sydd wedi bod yn gweithio'n ddi-flino i godi arian ac ymwybyddiaeth wrth groesawu Eisteddfod Caerffili a'r Cylch. Mae gen i gais cyn dyfodiad yr Ŵyl, a hynny yw am wirfoddolwyr i stiwardio yn ystod yr wythnos. Ynghlwm â'r rhifyn hwn o *CwmNi* gallwch ffeindio'r ffurflen stiwardio i'w llenwi os gallwch roi ychydig o oriau i stiwardio yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Gyda diolch o flaen llaw am eich parodrwydd, eich cyd-weithrediad a'ch croeso i Gymru oll – welwn ni chi gyd ym Maenordy Llancaiach ym mis Mai!

*Sara Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith*

**Cofio Olwen Rees**
Llithrodd sawl degawd heibio ers i Olwen Rees a'i theulu ddod i fyw i Gaerffili ac iddi weithio fel athrawes yn dysgu plant ag anghenion arbennig yn Ystrad Mynach cyn symud i weithio yn y sector Gymraeg pan agorwyd Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Roedd yn un a welai botensial y sawl a oedd o dan ei gofal. Cyfrannodd hefyd fel un o hyrwyddwyr Urdd Gobaith Cymru yn yr ysgol, gan weld yr iaith fel trysor i'w chyflwyno i drigolion y fro.

Tu allan i'r ysgol roedd ei chyfraniad i Gyngor Tref Caerffili yn bwysig fel cynghorydd Plaid Cymru. Roedd hefyd yn mwynhau ei hobïau, ac wrth ei bodd gyda gwaith crefft, darllen, garddio, canu mewn corau a chwarae ceilys. Cefnogai waith y WI a'r WRVS. Wynebodd ei thostrwydd yn ddewr a di-gwyn, gan dderbyn ei sefyllfa yn agored a di-rwgnach. Roedd ganddi lu o ffrindiau da a fu'n selog iddi ar hyd y blynyddoedd a neb yn fwy na'i phlant Ceilys a Delve, a'i merch-yng-nghyfraith Chrissie. Trysorai ei hwyresau Georgie a Macey yn fawr. Coffa da ohoni.



Bydd Clwb Cerdd Cwm Rhymni yn cyfarfod yn neuadd Ysgol Lewis i Ferched, brynhawn Sadwrn, 21ain o Fawrth am 2:30.

Bydd Antony Peebles yno'r diwrnod hwnnw i roi datganiad ar y piano.

## Meysydd Parcio Eisteddfod yr Urdd Caerffili a'r Cylch 2015

Hoffwn wahodd eich mudiad i dendro ar gyfer darparu stiwardiaid ar gyfer meysydd parcio Eisteddfod yr Urdd a gynhelir yn Llancaiach Fawr ger Nelson ym mis Mai 2015. Yn amgaeedig mae gwybodaeth bellach ynghyd â ffurflen gais.

Mae hyd at £5,000 o bunnoedd ar gael i'r clwb/mudiad llwyddiannus. Gallwch wneud cais am unrhyw swm hyd at yr uchafswm o £5,000 Nid ydym o reidrwydd yn mynd i dderbyn y cynnig isaf.

Mae'n bosib i fudiadau rannu'r gwaith (a'r cyfraniad ariannol) er mwyn sicrhau niferoedd digonol o wirfoddolwyr, ond hoffwn bwysleisio bod yr Urdd yn awyddus i ddelio gyda un prif ddarparwr yn unig. Mater mewnol i'r chi yw rhannu'r gwaith rhwng clybiau/mudiadau amrywiol.

Dylid anfon eich ceisiadau erbyn **20 Mawrth 2015** drwy ebost at morys@urdd.org neu drwy'r post at:

PARCIO
Eisteddfod yr Urdd,
Gwersyll Glan-llyn,
Llanuwchllyn,
Bala
Gwynedd
LL23 7ST

Yn gywir,
Morys Gruffydd
Trefnydd yr Eisteddfod

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Cyfle i Fyfyrwyr Ymgeisio am Ysgoloriaeth Werth Chweil**

Bydd mwy o gyrsiau nac erioed yn gymwys ar gyfer Ysgoloriaeth William Salesbury y Coleg Cymraeg Cenedlaethol eleni o £5,000.
Cafodd yr ysgoloriaeth ei chynnig am y tro cyntaf y llynedd gan Ymddiriedolaeth Cronfa William Salesbury, er mwyn ysgogi darpar fyfyrwyr i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg prifysgolion Cymru.

Mae dros 60 cwrs gradd ar gael yn gyfan gwbl trwy'r Gymraeg ac felly'n gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth eleni a bydd gan ymgeiswyr tan 20 Mawrth i gyflwyno cais.

Mae amrywiaeth eang o feysydd gan gynnwys Cymdeithaseg, Newyddiaduraeth, Ffrangeg a Hanes yn gymwys ar gyfer yr ysgoloriaeth eleni yn ogystal â graddau cyfun gydag Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Megan Mai Cynllo Lewis dderbyniodd yr arian y llynedd. Mae hi bellach yn dilyn cwrs gradd Astudiaethau Ffilm ym Mhrifysgol Aberystwyth:

"Mae'n anodd credu bod bron i flwyddyn wedi mynd heibio ers i mi gyflwyno cais am Ysgoloriaeth William Salesbury. Credaf fod cymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol trwy'r ysgoloriaethau yn hwyluso profiad yn y brifysgol ac mi fuaswn yn annog unrhywun sydd eisiau dilyn cwrs perthnasol i ymgeisio. Felly ewch ati, mae'r broses yn syml a phob lwc i chi gyd!"

Mae Ysgoloriaeth William Salesbury yn ychwanegol i'r ysgoloriaethau israddedig a gynigir gan y Coleg Cymraeg.

Bydd myfyrwyr sy'n dymuno astudio cyrsiau ym meysydd gwyddoniaeth, daearyddiaeth, y gyfraith, chwaraeon, busnes, gwyddorau iechyd a mwy yn gymwys i wneud cais am Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg o £1,500 cyn 8 Mai 2015.

**Gwybodaeth bellach**

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Manon Llwyd, Swyddog Datblygu Marchnata a Chyfathrebu, ar 01267 610414, neu e-bostiwch m.llwyd@colegcymraeg.ac.uk

**Manon Llwyd**
Swyddog Datblygu: Marchnata a Chyfathrebu | m.llwyd@colegcymraeg.ac.uk | 01267 610414 |
**Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

www.colegcymraeg.ac.uk | 01267 610400

## Llyfr am ddim!!!

Fel rhan o ddathliadau 150 mlwyddiant sefydlu'r Wladfa Gymreig yn Chubut, y mae **Cymdeithas Cymru-Ariannin** wedi cyhoeddi ***Cydymaith i'r Wladfa Gymreig ym Mhatagonia*** gan Eirionedd A. Baskerville. Y mae ar ffurf geiriadur bywgraffyddol ac yn cynnwys erthyglau am dros ddeugain o arloeswyr cynnar y Wladfa a'u disgynyddion. Cyhoeddiad electronig ydyw ac y mae ar gael i'r cyhoedd ***yn rhad ac am ddim*** ar wefan Cymdeithas Cymru-Ariannin:

http://www.cymru-ariannin.com/uploads/cydymaith_ir_wladfa_gymreig_ym_mhatagonia.pdf

# Clecs Cwm Rhymni

## PROSIECT BBC SCHOOL REPORT

Dros yr wythnosau diwethaf buon ni, newyddiadurwyr Y Gwyndy
yn brysur yn paratoi ar gyfer rhaglen radio bwysig iawn. Daeth Catrin sy'n gweithio i Radio 4 yn Llundain i recordio ein rhaglen arbennig am Eisteddfod Caerffili. Bydd y rhaglen yn cael yn ei ddarlledu yn Saesneg ar Radio 4 Extra ac ar BBC Radio Cymru yn Gymraeg. Roedd yn brofiad anhygoel i ni i ddeall sut i sgriptio, trefnu, ymchwilio, recordio a golygu er mwyn paratoi rhaglen radio proffesiynnol ac hefyd cawsom y cyfle i gyfweld â sawl aelod pwysig iawn yn yr ardal am eu barn. Yn sicr rydyn ni'n gyffrous iawn am yr Eisteddfod wedi'r holl ymchwilio!
Llwyddon ni gyfweld â Mr Phil Bevan, y Cynghorydd lleol, Miss Sara Davies, Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith, Mr Richard Powell, perchennog cwmni Hufen Iâ Hapus ynghyd â llawer mwy. Dysgon ni lawer am y broses a fydd yn werthfawr iawn i ni wrth baratoi ar gyfer prosiectau'r dyfodol.
Cofiwch wrando!







## Y CYNGOR YSGOL

Yn dilyn cyfarfod Cyngor Ysgol Cwm Rhymni, bu Ben, Seren, Evan a Hana, aelodau Cyngor Ysgol Y Gwyndy, yn trafod datblygiadau cyffrous y safle a chawsant gyfle i annerch y disgyblion i gyd i drafod eu syniadau.
Trafodwyd llawer o bynciau allweddol o'r clwb gwaith cartref i daclusrwydd yr adeilad, o
Gymreictod i ymddygiad, o hapusrwydd y disgyblion i adnoddau. Maent yn awyddus iawn i ddatblygu adnoddau effeithiol ar y safle wrth i'r ysgol ddatblygu ac hefyd i gefnogi elusenau lleol. Maent yn mwynhau'n fawr cael cydweithio gyda disgyblion safle Gellihaf ar Gyngor yr
Ysgol a chynrychioli disgyblion Y Gwyndy.

# Y Gwyndy



Mae gwaith adeiladu ar Safle'r Gwyndy yn datblygu'n dda. Mae' cwmni adeiladu Morgan Sindall yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r ysgol er mwyn ceisio sicrhau bydd yr adeiladau ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni ac Ysgol Gymraeg Caerffili yn barod erbyn mis Medi 2015.
Dyma ddyluniad o brif fynedfa'r ysgol.

Mae'r gwaith ar adeiladu'r ffrâm ddur ar gyfer estyniad Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi ei gwblhau o'r diwedd. Dyma ddatblygiad hynod gyffrous i'r gwaith adeiladu.
Edrychwn ymlaen yn eiddgar i weld yr adeiladau gorffenedig!



## LLWYDDIANNAU CHWARAEON




Llongyfarchiadau i Ben Reynolds am dorri record 1500m dan do Cymru yn ddiweddar. Da iawn ti Ben!



Cafodd y timau athletau dan do blwyddyn 7 ac 8 lwyddiant mawr yng nghystadleuaeth Cymoedd Morgannwg yn ddiweddar.  Bydd y ddau dîm yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rownd derfynol lle bydd ysgolion Cymru gyfan yn cael eu cynrychioli.   Pob lwc i chi gyd.



Dyma aelodau tîm buddugol trawsgwlad De Ddwyrain  Cymru. Maent i  gyd yn ddisgyblion blwyddyn 7 ac 8 yn Y Gwyndy. Llongyfarchiadau i chi gyd!

## PROSIECT ASSIST



Yn ddiweddar cafodd disgyblion Blwyddyn 8 y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdy fel rhan o brosiect ASSIST. Cafodd y disgyblion hyn eu dewis gan eu cyfoedion fel arweinwyr i gydweithio ar brosiect gwrth-ysmygu. Yn y gweithdy, cawsant eu haddysgu am beryglon ysmygu ynghyd â chynhwysion ac effeithiau sigarennau. Y gobaith yw y byddant yn medru annog eu cyfoedion i beidio ag ysmygu yn y dyfodol.



## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daniel Jenkins-Jones oedd y siaradwr yn ein cyfarfod ar Chwefror yr 16eg. Derbyniodd ei addysg gynradd ac uwchradd yng Nghaerfyrddin ac addysg uwch yn Aberystwyth. Bu ar staff y BBC yng Nghaerdydd am oddeutu ugain mlynedd cyn symud, yn 2011, i'w swydd amser-llawn bresennol gyda'r Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar (RSPB), yn dilyn cyfnod hir o ymddiddori'n wirfoddol ers 'syrthio mewn cariad' gydag adar ym Mehefin 1977. Teitl ei sgwrs oedd Agweddau Gwyddonol ar waith yr RSPB a'r BTO (British Trust for Ornithology).

Cawsom olwg ar anturiaethau blynyddol sawl aderyn wrth iddynt fudo dros bellteroedd anhygoel o filoedd o filltiroedd – a hwythau yn eu 'gwendid' corfforol yn ymddangos yn analluog ac anghymwys i'r dasg. Atgoffwyd ni mai trigolion sawl gwlad ydynt, gyda llawer yn treulio ond dau fis yma. Nodwyd ambell ffaith syfrdanol, er enghraifft, bod hanes am un aderyn wedi teithio dros bum miliwn milltir yn ei oes a bod gwenoliaid ddim yn glanio dros gyfnod o ddwy flynedd a hyd yn oed yn llwyddo i gysgu wrth hedfan.


Rydym yn gyfarwydd â chlywed am yr arfer o fodrwyo adar, arfer a gychwynnnwyd yn 1899 gan ymchwilydd o Ddenmarc. Gyda



chofnodion manwl o astudiaethau miloedd o wirfoddolwyr llwyddwyd i ffurfio corff o wybodaeth am arferion adar dros dymhorau'r flwyddyn. Ond prin oedd yr wybodaeth am eu bywydau yn y cyfnodau pan oeddent uwchben y moroedd. Erbyn hyn, gyda chymorth technoleg fodern ar ffurf dyfeisiau electronig bychain iawn agorwyd pennod newydd. Mae'r dyfeisiau hyn (geolocaters/geo-leolwyr) yn medru olrhain teithiau adar a dweud pa droeon yr yrfa a brofir a rhoi amcangyfrif o ble mae'r aderyn ar ei daith. Gyda'r data diweddaraf roedd Daniel yn medru ein calonogi ynghylch dyfodiad y Gwanwyn eleni, oherwydd mae'r adar wedi gadael Affrica. Gallwn felly fod yn hyderus ac ymarfer y gân "Moliannwn".

*Diolch i Dr Eirian Dafydd am gyfrannu hyn at erthygl Dr Neville Evans,*

Ni wn a yw'r newyddion wedi cyrraedd Cwm Rhymni eto ond mae aderyn hynod o brin yn Ewrop, y bras lleiaf *(little bunting)* wedi taro ymweliad â Fferm y Fforest yng ngogledd Caerdydd yn ystod mis Chwefror. Fel rheol, yn ne-ddwyrain Asia y bydd yr aderyn hwn yn gaeafu a dim ond ambell un a welir yn flynyddol yng ngorllewin Ewrop. Bum yn ddigon ffodus i'w weld ar fwy nag un achlysur dros yr wythnos diwethaf.




## Merched y Wawr

Ni ddarperir cinio na phaned prynhawn ond mae gweddill y diwrnod yn rhad ac am ddim, diolch i nawdd gan Grant 'Bwrw Mlaen' Llywodraeth Cymru. Bydd modd archebu cinio yn y gwesty ar ôl cyrraedd yn y bore os dymunwch.

Rhaid cofrestru ymlaen llaw trwy ffonio swyddfa Merched y Wawr 01970 611 661, e-bost swyddfa@merchedywawr.com neu bostio at Swyddfa Merched y Wawr, Stryd yr Efail, Aberystwyth, CeredigionSY23 1JH erbyn 18 Mawrth 2015

# Llythyr Wmffre



*Dyma'r trydydd o'r llythyron a enillodd fri'r beirniaid i Gruffudd Gwyn am ei waith yn Eisteddfod yr Urdd y llynedd. Fe gofiwch mai'r 3ydd o Ionawr 1914 oedd dyddiad y llythyr blaenorol.......*

12fed o Fedi 1914

F'anwylyd,

Ymddiheuraf o waelod calon, mae'n rhaid dy fod yn poeni dy enaid, dim ond rŵan y deuthum ar draws y llythyr yma drachefn. Roedd yn y llaid ger geriach y milwyr. Ers imi ysgrifennu ddiwethaf mae pob peth a oedd yn blaen i mi wedi chwalu'n gyrbibion. Namyn dyddiau wedi imi adael yr ysgrifbin ar ben y papur yma, syrthiodd bom o'r awyr heb na rhybudd na si gan ysgwyd ein lloches a'n ffydd i'w sail. Esgyrn brau oedd y trawstiau'n cynnal y to, pe gwelit y difrod yma'n awr! Prin y gallaf anadlu yn y llwch, ac mae sawl un yn sachaid o besychu.


Rhyw wyth o'r gloch oedd hi a phawb yn eu hwyliau'n morio canu, a dylem fod wedi callio cyn hynny, ond deall mai'n cynllun oedd i aros amdanynt, nid mynd i chwilio am drafferth. Welodd neb y peth yn dod, a doedd neb yn rhyw sobor iawn y noson honno. Aeth hi'n ffradach wedyn, efo pawb yn sgrialu am le diogel i guddio a gobeithio. Drwy ffawd a bendith chafodd neb 'mo'i ladd oherwydd syrthiodd y bom ar ben bryn filltir o 'ma. Ond mae pob un copa gwalltog fel gafr ar daranau rŵan, yn disgwyl yr un anochel nesaf.


Mae milwyr ar y gorwel ac mae 'nghatrawd yn paratoi'n daer am ymladdfa. Mae clecian metelaidd y gynau yn erbyn ei gilydd i'w glywed ym mhobman, a diolch byth am y tanc Prydeinig i'n llywio i fuddugoliaeth. Lle fyddwn ni heb ein clyfrwch? Wel angel, cael a chael fydd hi o'r fan yma, ac mae'r capten wedi dweud wrthyf fy mod i'n rhan o'r rheng nesaf i orfod dringo allan o'r ffos i ymladd wythnos nesaf. Er bod dyddiau'r capel wedi llyfu'r llwch ers meitin, wnaiff gweddi ddim drwg decini, a wnei di'r un peth drostof 'mechan i?

Mae Guto wedi'i daro'n wael gan salwch wedi diwrnod o ymladd a chael ei daro gan fflawiau haearn. Haint sydd yn cydio ynddo, beryg. Gweddïaf drosto hefyd. Simsan yw'r tir dan ein traed, a gorau po gyntaf y bwyf yn ôl yn dy gwmni,

Wmffre.

Yr Atebion



1. Lampedusa
2. Damwain y Costa Concordia
3. Equador
4. Ynysoedd y Ffilipin
5. Yn y corf (pancreas)
6. Ciprys a Santorini
7. Oahu (Hawaii)
8. Ynysoedd y Sianel
9. Skye
10. St Helena

Yr ynys yn cuddio yn y chwilair

Ynys Afallon

## *Beth am dalu am eich papur bro drwy Warant Archeb Banc, i sbario casglu pob blwyddyn?.*

# Cwm*ni*

Gwarant Archeb Barhaol *Standing Order Mandate*

I'r Rheolwr *To the Manager*

........................................ Banc/ Cymdeithas Adeiladu *Bank/Building Society*

Cyfeiriad y Banc.......................................................................*Bank Address*

Debydwch o fy nghyfrif £8 (neu £15 os drwy'r post ) ar y 3ydd o ......... bob blwyddyn

gan ddechrau ym mis .............201.. nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol.

*Please debit from my account £8 (or £15 if received by post) on the 3rd of.............*

*annually starting in the month of ..............201.. until I advise you to the contrary*

Yn daladwy i: *Payable to:*

| Banc | Enw'r Cyfrif | Rhif Didoli | Rhif y Cyfrif |
|---|---|---|---|
| HSBC Treganna / Canton | Tua'r Goleuni | 40-16-12 | 91728113 |

Enw(au) y cyfrif *Name(s) on the account*

| |
|---|
| |

Côd Didoli *Sort Code*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

Rhif y Cyfrif *Account Number*

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |

Eich Cyfeiriad *Your Address:* ..........................................................................

....................................... Côd Post *Post Code* ............

Llofnod *Signature:*....................................... Dyddiad *Date*:..............


Dychweler y ffurflen hon, os gwelwch yn dda i'r Trysorydd:
Eyron Thomas, 4 Rolls Avenue, Penpedairheol, Hengoed CF82 8HP

neu at y sawl sy'n dosbarthu'r Papur Bro i chi, NID i'r Banc.

## Posau'r Plant gan Mary Jones

## Allwch chi ddod o hyd i NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun?






**Geiriau Croes**

Allwch **chi ffitio'r geiriau hyn i mewn i'r rhwyll?**

Mae'r atyebion rywle arall yn y papur.




**Dydd Gŵyl Ddewi**

| | |
|---|---|
| **dawns** | **ffedog** |
| **canu** | **siol** |
| **Cennin Pedr** | **hwyl** |
| **Mawrth** | **gwanwyn** |

# Llythyr sy'n haeddu sylw

Waterloo
CAERFFILI

Annwyl Syr/Madam,

Rydw i'n ysgrifennu atoch am draffig Eisteddfod yr Urdd sy'n dod i Gaerffili ym mis Mai 2015.

O'r hyn yr ydw i'n weld heolydd cul sydd yn Llancaiach ac ychydig iawn o fannau parcio (er y bydd yr Urdd mwy na thebyg yn trefnu cae, mae ceir yn sicr o fynd yn sownd yn y mwd a torri'r cae i fyny fel yr ydym yn gwybod ond yn rhy dda yn ystod y blynyddoedd o'r blaen.) Felly, fy nghynllun yw (fel un sy'n eithafol o frwdfrydig am drenau cael trên i gludo pobol o Gaerffili i Lancaiach er mwyn lleddfu tagfeydd traffig.

Fy syniad yw adeiladu gorsaf fach dros dro yn hen orsaf Llancaiach, ac i amseru'r trenau i ffitio i mewn gydag amserlen y trenau rheolaidd. Mae'r lein yno'n barod am ei bod yn cario glo nifer o weithiau bob dydd. Mae'r gangen yn ymuno â'r brif lein yn yr orsaf yn Ystrad Mynach ac mae'r trenau yn mynd ymlaen o'r fan honno i Gaerdydd. Felly, byddai'n rhaid i'n trên ni aros yn rhywle i'r trên glo allu pasio – efallai mewn seidin neu wrth platform 1 yng Nghaerffili.

Mater arall yw'r rholstoc. Yn bersonol, rydw i'n hoff iawn o drenau stêm felly, yn naturiol, byddwn yn hoffi un yma a fyddai'n denu pobol hefyd a gyda llun trên stêm bach ar logo'r eisteddfod yn pwffian stêm ac yn cyhoeddi "2015". Ond gallai fod yn un o'r trenau diesel modern sydd ganddynt ar hyn o bryd. Byddai'n nhrên i â locomotif a thanc bach a dau neu dri coets gyda'r loco yn wynebu'r trên ar gyfer system 'push-pull' fel bod gwaith y loco yn haws. Awgrymaf hurio rholstoc.

O ran gyrrwyr, os yn bosib, dylem ofyn i berchnogion y locomotif ddod.

Rydw i'n wirioneddol yn gobeithio, os yn bosib, y gwnewch chi gytuno â'r syniad a'i ganiatau.

<u>Ioan Angove</u> (13 mlwydd oed)

# Y DIGWYDDIADUR

Pwyllgor Apêl Rhymni

Bore Mercher, Mawrth 4ydd

**BORE COFFI**

Carl Llewelyn a Enid Middleton

11:00
Festri Penuel, Rhymni







Eisteddfod yr Urdd 2015

## Cyngerdd Ysgolion Tredegar

Nos Fercher, Mawrth 4ydd

**6:00**

Neuadd Ysgol Gyfun Tredegar

£3 o'r ysgolion

Ysgolion Cynradd Bryn Bach, Deighton, Georgetown, Glanhywi, Joseff Sant
Ysgol Gyfun Tredegar

Yr elw at Eisteddfod Caerffili 2015

Pwyllgor Cerdd Dant

RADIO FEYNMAN
Cyn Ddisgyblion Cwm Rhymni

Nos Wener, 13eg o Fawrth
Clwb Golff, Caerffili
7:30 – Canol Nos

Nia Parsons: 07817975799 Richard Parsons:07968045003 ebost: niaparsons@hotmail.co.uk

£10 gan gynnwys bwffe

Côr Merched Aberbargoed

## CYNGERDD GWANWYN

Eglwys Pedr Sant, Aberbargoed
Arweinydd: Hetty Watkins
Cyfeilydd: Beth Dean

Unawdydd: Eleri Darkins (Telyn)

£4

Tocynnau: Y Côr/ Wrth y Drws
Dydd Llun, 23ain o Fawrth

**7:30**

Yr elw at Eisteddfod 2015

Menter Iaith Sir Caerffili

**Sadwrn Siarad**

Mawrth 28ain

10-12pm

Llyfrgell Caerffili

Dewch i gwrdd a dysgwyr a siaradwyr Cymraeg .

Merched y Wawr,
Mawrth 18fed

**Cinio Blynyddol**

Bella Capri, Caerffili

Manylion: Marian Fairclough




pwyllgorapelcaerffili@hotmail.com
Osian Rowlands 07980302285
Fflur Rowlands 07966868035

**Côr Merched Caerffili**

Ynghyd ag

**Ysgol Gymraeg Caerffili**

raffl

**Capel Tonyfelin**

**7:00pm Gwener/Friday 24.4.15**

**Tocyn & Rhaglen £5**

**Lluniaeth**

**07954 135032**

*Canolfan Siloh, Ystrad Mynach*

***Cyfres nesa' ein grwp trafod - Pobl a Gyfarfu Iesu***

*(Gyda deunyddiau dwyieithog - addas i ddysgwyr)*
*7.30 - 8.30 yr hwyr,*
*Nos Fawrth 14,21,28 Ebrill,*
*5 a 12 Mai.*
*Astudio/ trafod/ gweddio/paned*
*Croeso i bawb!*

*www.siloh.co.uk*
*ymholiadau@siloh.co.uk /*
*info@siloh.co.uk 01443 813617*

**Cerddoriaeth Fyw!**

Gyda : **Red Jam**

Dewch yn llu i godi arian dros Eisteddfod yr Urdd Caerffili!!!

raffle

**ROC/POP/JAZZ**

**Clwb Rygbi Bedwas**

**7.30 Nos Wener 16.5.15**

**Tocynnau £5**

**Cysylltwch â Peter Jones: 07964178392**

**NEU**

**Nerys Porch:07917766767**

Ocsiwn! Ocsiwn!

**Manylion Cysylltu â'r uchod**

Menter Iaith: menter@caerffili.org 01443 820913
Bethan Jones: bethanjones@mentercaerffili.org
01443 820913
Morgan Roberts: morgan@urdd.org
Marian Fairclough: faircloughme@aol.com 02920885151

## Colofn y Dysgwyr

Helo bawb! Dyma stori arall o lyfr Iestyn am chwedlau Cwm Rhymni a'r ardal. Mae Iestyn yn dal i gerdded o gwmpas y Cwm – edrychwch allan amdano!



## Haul Llanfabon

Roedd trigolion plwyf Llanwynno wrth eu bodd gyda'r gloch newydd yn eu heglwys. Cloch o arian oedd hi, yn disgleirio yn yr haul ac yn pefrio yng ngolau'r lleuad. Roedd gan y gloch lais hyfryd hefyd.
Roedd trigolion pentref cyfagos Llanfabon yn eiddigeddus iawn o'r gloch ac fe benderfynon nhw ei dwyn ar gyfer eu heglwys eu hun.
Felly un noson mor dywyll a bola buwch ddu, aethon nhw draw i Lanwynno a dwyn y gloch gan wneud yn siwr bod digon o wellt o'i chwmpas i rwystro'r gloch rhag canu. Fe symudon nhw'n gyflym er mwyn cyrraedd adref cyn i'r haul godi.
Fel roedden nhw'n cario'r gloch ar draws yr afon Taf, daeth y lleuad allan o'r tu ôl i gwmwl. Roedd dynion Llanfabon yn meddwl bod y wawr yn torri, cawson nhw ofn a gollwng y gloch i mewn i'r afon. Diflannodd o'r golwg o dan y dŵr, ar goll am byth!
A dyma pam, hyd y dydd heddiw, bod trigolion Llanwynno a Llanfabon (sy'n ffrindiau eto erbyn hyn! ) yn galw'r lleuad yn " haul Llanfabon".



trigolion : *inhabitants* cloch : *bell* disgleirio : *shine*
pefrio : *sparkle* llais : *voice* eiddigeddus : *jealous*
dwyn : *steal* digon o wellt : *plenty of straw*
i rwystro'r cloch rhag canu : *to prevent the bell ringing*
cyn i'r haul godi : *before sunrise* o'r tu ôl i gwmwl : *from behind a cloud*
y wawr : *the dawn* cawson nhw ofn : *they were frightened*
gollwng : *drop* diflannodd o'r golwg : *it disappeared from sight*
ar goll : *lost* hyd y dydd heddiw : *to this very day*

# Posau



Cwis

1. Beth yw enw'r ynys Eidalaidd lla mae ffoaduriaid o Affrica wedi bod yn glanio eleni?
2. Pam daeth Isola del Giglio yn enwog yn y blynyddoedd diwethaf?
3. Pa wlad sy'n berchen ar ynysoedd y Galapagos?
4. Ar ba ynysoedd maen nhw'n siarad Tagalog?
5. Ble mae Ynysoedd Langerhans?
6. Ar ba ddwy ynys mae lle o'r enw Akrotiri?
7. Ar ba ynys mae Pearl Harbour?
8. Rhan o ba grŵp o ynysoedd mae Brecu a Herm?
9. Pa ynys sy â Portree yn brif dref?
10. Mae poblogaeth o 4,000+ arni. Mae hi'n rhan o'r Gymanwlad. Y wlad agosaf yw Angola. Pa ynys?

Dim mynd at Gwgl!!!!

## Cwmni


**Cadeirydd:** Robert Dutt

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough
faircloughme@aol.com 02920 885151

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas
e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones
benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428

**Ymgynghorydd:** Ann Lewis

**Digwyddiadur:** Lowri Jones
Lowri@mentercaerffili.org

**Ieuenctid:**
Bethan Mair Jones a Morgan Roberts

**Tanysgrifio:**
Marian Fairclough a Jan Penney

**Dyluniwr:**
Gareth Williams
bocspostgap@btinternet.com

**Argraffwyr:** Tower Print (Caerffili)


*Cyhoeddir "Cwmni" gan y Bwrdd Golygyddol.*

***Cedwir pob hawl i olygu, newid neu gwtogi ar unrhyw gyfraniad yn ôl gofynion gofod.***

## Chwilair Ynysoedd

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| m | h | i | j | i | f | e | l | b | a |
| l | a | m | p | e | d | u | s | a | i |
| y | i | n | j | r | n | o | m | r | n |
| e | t | y | a | ch | n | ll | k | b | a |
| s | i | y | m | w | s | r | i | a | m |
| n | a | f | a | g | a | a | ll | d | s |
| r | u | m | i | s | l | a | y | o | a |
| e | o | e | c | i | p | r | y | s | t |
| g | a | l | a | p | a | g | o | s | n |

**Allwch chi ddarganfod yr ynysoedd?**
**Dim llythrennau bras cofiwch.**

Manaw Lampedusa Enlli

Erch Haiti Barbados

Jamaica Galapagos

Gernsey Rum Eig

Elba Tasmania Mon

Ciprys Islay Fiji Sark

**Mae un ynys arall yn cuddio yn y llythrennau sbar.**



Atebion rywle arall yn y papur

# Llun y Mis



Anne Anstead, sy'n byw yn Caledfryn, yw arlunydd y mis. Yn wreiddiol o dde-ddwyrain Lloegr mae wedi byw yng Nghaerffili ers sawl blwyddyn. Bu'n dilyn cyrsiau ym Medwas ac mae wedi bod yn aelod brwd o Grŵp Dydd Gwener ers y dechrau cyntaf. Mae Anne yn hoff o ddyfrliwiau, acrylic ac olew ac yn arddangos yn lleol yn gyson.

## "Cwm*ni*" ar y We!

Diolch i'n ffrindiau ym Menter Iaith Sir Caerffili mae "Cwm*ni*" bellach ar y We. Dyma'r cyfeiriadau sydd eu hangen os ydych chi'n ymweld a'r safle:

http://www.mentercaerffili.org/ http://www.mentercaerffili.org/papur-bro-cwmni/

Wedi clicio ar y cyfeiriad, fe welwch lun o logo'r papur.

Os wnewch chi glicio ar y logo, cewch fynd i mewn i'r safle a'ch gwahodd i ddarllen rhifyn y Nadolig, sef Rhif 168. Byddwn yn gosod cyn-rifynau ar y safle ar ôl i bawb gael cyfle i ddarllen "copi caled" pob rhifyn pan fyddant yn gyfredol.

Mae ein diolch yn fawr i Ffion Rees, a staff Menter Iaith Sir Caerffili, am drefnu hyn.